

Diolchgarwch

Darllen: Genesis 1:1–5

Addoli oedd canolbwynt bywyd Iesu, ac o'r cyfathrebu hwn â Duw y tarddodd popeth a ddywedodd a phopeth a gyflawnodd. Roedd perthynas fywiol a deinamig rhyngddo ef a'i Dad. Duw oedd gwrthrych yr addoliad bob tro. Addoli Duw y Creawdwr oedd sylfaen addoliad Iesu gydol ei weinidogaeth. Duw oedd yn ei gynnal a'i nerthu i weithredu yn ei enw. Gydol ei fywyd, roedd yn ymwybodol o bresenoldeb ei Dad; ac ato Ef yn unigrwydd y mynydd neu mewn lle anghyfannedd y byddai'n troi i gael nerth i wynebu bywyd. Nid rhywbeth ar wahân, nid rhyw weithred benodol oedd addoli i Iesu, ond rhan o'i fywyd bob dydd. Roedd mewn perthynas barhaol a chyson â Duw.

Gwelai Iesu law Duw yn holl rychwant bywyd. Cyfeiria at lili'r maes ac adar y to, yr efrau a'r helfa bysgod. Iddo ef, roedd dyrchafu a dathlu byd natur o'i gwmpas yn rhan hanfodol o'i addoliad gan y gwelai ôl ei Dad yn y cyfanrwydd hwn. Roedd y mynd a'r dod rhwng yr aelwyd a'r synagog lleol, rhwng y deml a'r pererindota, yn gymaint rhan o addoliad a bywyd ysbrydol Iesu. Prin iawn yn ein haddoliad ni heddiw y rhoir lle canolog i Dduw'r Creawdwr. Ac er bod yna un wyl yn ei chynnig ei hunan i ni – Gŵyl o Ddiolchgarwch am y Cynhaeaf, sy'n rhoi cyfle i ni ddathlu'r Greadigaeth – amharod iawn ydyn ni i fentro. Erbyn heddiw mae'r wyl hon yn prysur ddiflannu o gymharu â'r pwyslais a roddwyd arni yn y blynyddoedd a fu. Arferid cael oedfaon ar y Sul a'r 'Llun Pawb' fel y'i gelwid mewn rhannau o'r Gogledd: cyfarfodydd gweddi oedd y rhain gan amlaf, a chlywid iaith gyhyrog yn erfyn ac yn diolch i Dduw y Creawdwr.

Ar hyd y canrifoedd, rydyn ni wedi cyfyngu ein haddoliad i adeiladau cysegredig – eglwysi a chapeli. Pam nad awn ni allan o glawstroffobia adeilad i eangderau'r Cread i addoli? Wna i byth anghofio bod yn rhan o oedfa gymun ar ganol cae. Beth sydd o'i le mewn bedyddio ar ochr y llyn neu ar lan y môr? Pam na fedrwn ni ddathlu dyfodiad y tymhorau yng

nghanol byd natur? Croesawu'r haf ar lan y môr, diolch am yr hydref mewn coedwig wrth gerdded trwy ddail crin, teimlo'r gaeaf mewn cwr o fynydd neu ynghanol eira, a rhyfeddu at wyrth y gwanwyn mewn gardd. Na, mae arnom ofn mynd allan o'n rhigolau esmwyth a diogel. Yn yr awyr agored yr oedd Iesu'n byw ac yn bod. Yno roedd o'n dysgu ac yn cyfarfod â'i bobl, a chymerai enghreifftiau o'r byd byw i ddarlunio a throsglwyddo neges y deyrnas oedd mor greiddiol i'w ddysgeidiaeth.

Mae gofalu am y Cread mor allweddol i'n crefydd o gofio mai byd Duw yw hwn; Duw ydi'r Creawdwr a ninnau'r tenantiaid. A gwaith y tenant ydi gofalu am y byd. Cydweithio â Duw yn y broses o gadw, gofalu a chreu. Codwn o'n seddau ac awn allan i brofi godidowgrwydd creadigaeth Duw a phlygu mewn diolchgarwch.

Myfyrdod pellach:

Faint o sylw a gaiff Duw y Creawdwr yn eich addoliad?

Sut mae'r syniad o fynd allan i ddathlu'r tymhorau yn apelio atoch?